

# Atebion

## Atebion Iaith:

1. Yr amser yn union.
2. “nadreddu”, “gwau”, “ymlywybro”, “igam ogamu”
3. Meddwl yn ddwys am rywbeth.
4. Bod y dyn wedi brysio a’i fod allan o wynt.
5. Gall awgrymu ei fod yn nerfus, sychedig, neu o bosib, yn benderfynol. Ond yn y cyd-destun hwn dw i’n credu ei fod yn llyncu ei boer ychydig yn nerfus gan ei fod wedi cael ymateb sych gan Olwen wedi iddo ddweud wrthi ei bod yn bert.

## Atebion Cynnwys (i’w cymharu â’ch atebion chi...nid i’w marcio!)

1. Rhyw fath o robotiaid sydd wedi datblygu i edrych yn union fel bodau dynol.
2. Mae’r dyn yn gweithio i gwmni sydd wedi datblygu technoleg sgriniau cyffwrdd hyblyg i greu croen rhyngweithiol ar gyfer robotiaid. Mae Olwen wedi cael damwain gas gyda dŵr berw ac angen croen newydd ar ei braich. Mae’r ddau yn cyfarfod i drafod y posibilrwydd o roi croen fel y robotiaid ar ei braich.
3. Tad Olwen yw bos y cwmni ac mae’r dyn yn gweithio iddo.
4. Nid yw Olwen a’i thad yn treulio llawer o amser gyda’i gilydd. Mae ei thad yn ystyried ei waith a’i robotiaid fel canolbwynt ei fywyd... ac nid yw Olwen erioed wedi gallu cystadlu gyda chyffro’r diwydiant. Mae hyn yn brifo Olwen i’r byw ac mae’n torri ei chalon.